



Department  
for Environment  
Food & Rural Affairs

Ofwat

# Penodi Cadeirydd i Fwrdd Ofwat

## Rhif Cyf APPT02-21

### Pecyn briffio i ymgeiswyr

Dyddiad Cau hanner dydd ar Dydd Mercher 10fed  
Tachwedd



---

## Cynnwys

---

Neges weinidogol i ymgeiswyr .....	2
Datganiad Cenhadaeth Defra.....	3
Ynglŷn ag Ofwat.....	4
Cefndir .....	4
Y Bwrdd .....	6
Manyleb rôl.....	7
Meini prawf hanfodol.....	8
Telerau'r penodiad .....	9
Y broses recriwtio.....	10
Sut i wneud cais a'i gyflwyno.....	11
Meini prawf anghymhwysra .....	12
Gwrthdaro buddiannau a diwydrwydd dyladwy .....	13
Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus .....	14
Diogelu data .....	14
Atodiad A - Saith egwyddor bywyd cyhoeddus .....	15
Atodiad B - 12 Egwyddor Llywodraethu ar gyfer pob Cyfarwyddwr Anweithredol Corff Cyhoeddus .....	16
Atodiad C – Aelodaeth bresennol y Bwrdd.....	17

---

# Neges weinidogol i ymgeiswyr

---

Annwyl Ymgeisydd

Rwy'n chwilio am unigolyn rhagorol i'w benodi'n Gadeirydd newydd yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr (Ofwat).

Ofwat yw'r rheoleiddiwr economaidd annibynnol ar gyfer y sectorau dŵr a dŵr gwastraff yng Nghymru a Lloegr. Mae ganddo gyfrifoldeb unigryw a breintiedig - i ddal cwmnïau dŵr i gyfrif a'u galluogi a'u cymell i wella eu perfformiad ar gyfer defnyddwyr a'r amgylchedd nawr ac yn y dyfodol. Mae Ofwat hefyd yn goruchwyllo'r marchnadoedd sy'n bodoli yn y sector dŵr er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn gweithio ar gyfer defnyddwyr.

Mae gwaith cwmnïau dŵr yn cefnogi pob agwedd ar fywyd modern ar gyfer pawb, bob dydd. Mae gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff diogel a dibynadwy yn hanfodol ar gyfer iechyd a lles y cyhoedd. Fel cymdeithas, rydym yn disgwyl i gwmnïau dŵr ddarparu gwasanaethau gwydn a fforddiadwy i gwsmeriaid a busnesau ac i gynllunio a buddsoddi'n effeithiol ar gyfer yr hirdymor.

Mae'r sector dŵr yn wynebu heriau sylweddol. Mae angen i'r sector ddarparu gwasanaeth teg a gwerth da am arian i gwsmeriaid wrth i'r wlad ddod allan o'r pandemig, sicrhau gwelliannau gwirioneddol i'r amgylchedd dŵr, a chwarae ei ran wrth fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Mae'r [Datganiad Polisi Strategol](#) i Ofwat yn nodi disgwyliadau'r llywodraeth a blaenoriaethau strategol hirdymor i'r diwydiant dŵr sicrhau canlyniadau cadarnhaol i gwsmeriaid, yr amgylchedd a'r gymdeithas yn ehangach. Rôl Ofwat yw defnyddio ei offer rheoleiddio fel y gall y diwydiant dŵr gyflawni'r blaenoriaethau strategol hirdymor hyn yn effeithlon ac mewn modd sy'n bodloni disgwyliadau cwsmeriaid. Mae'r Datganiad diweddaraf yn cael ei gyhoeddi ar hyn o bryd gan Defra ar ffurf drafft er mwyn ymgynghori arno. Mae'r cyfnod ymgynghori yn dod i ben ar 27 Medi, yna bydd yn cael ei osod gerbron y Senedd a'i gyhoeddi fel datganiad terfynol yn y flwyddyn newydd.

Mae Covid-19 wedi gwneud y 18 mis diwethaf yn heriol i fusnesau ac unigolion ledled y wlad. Mae'r sector wedi parhau i ddarparu'r gwasanaethau cyhoeddus hanfodol ac wedi camu ymlaen i chwarae rhan yn adferiad gwyrdd y wlad.

Bydd aelodau Bwrdd Ofwat sy'n Gyfarwyddwr Gweithredol ac Anweithredol yn dod ag angerdd gwirioneddol i'w rôl. Mae'r Bwrdd yn elwa gan ystod amrywiol o sgiliau, profiad a chefnidiroedd. Rydym yn chwilio am Gadeirydd a fydd yn dod ag arweinyddiaeth, her, cefnogaeth a barn ragorol i'r penderfyniadau y mae'r Bwrdd yn eu hwynebu, ac a fydd yn datblygu ymhellach y gwaith tîm cryf sydd ar Fwrdd Ofwat.

**Y Gwir Anrhydeddus George Eustice AS**  
**Ysgrifennydd Gwladol, Defra**



---

# Datganiad Cenhadaeth Defra

---

Mae grŵp Defra yma i wneud ein haer yn burach, ein dŵr yn lanach, ein tir yn wyrddach, a'n bwyd yn fwy cynaliadwy. Ein cenhadaeth yw adfer a gwella'r amgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, a gadael yr amgylchedd mewn cyflwr gwell.

Mae hyn yn bwysig oherwydd bod gwella natur a mannau gwyrdd yn gwella bywydau a bywoliaethau, gan gyfrannu at economi gref. Mae ein lles, ein hiechyd corfforol a meddyliol, ein cariad at le a thirwedd, a'n hangen cynhenid am harddwch, syfrdan a rhyfeddod, i gyd yn rhan annatod o amgylchedd naturiol ffyniannus.

Bydd penodi pobl o safon uchel o gefndiroedd amrywiol sydd â sgiliau, gwybodaeth a phrofiad perthnasol i fyrrdau ein cyrff cyhoeddus yn ein helpu i sicrhau bod ein gwaith yn fwy effeithiol, gwydn ac atebol.

## Cyfle Cyfartal

Mae gan Lywodraeth y DU bolisi cyfle cyfartal. Ein nod yw hyrwyddo polisïau cyfle cyfartal fel na fydd unrhyw un yn dioddef gwahaniaethu annheg naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, neu aflonyddu, ar sail megis hil, lliw, tarddiad ethnig neu genedlaethol, rhyw, hunaniaeth rhywedd, statws priodasol, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, cred grefyddol neu oedran.

## Amrywiaeth

Rydym yn croesawu'n gadarnhaol ymgeiswyr o bob cefndir. Gwneir pob penodiad cyhoeddus ar sail teilyngdod yn dilyn cystadleuaeth deg ac agored fel y rheoleiddir gan Swyddfa'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus.

## Anabledd

Rydym yn sicrhau cyfwelliad i unrhyw un sydd ag anabledd y bydd ei gais ef neu hi yn bodloni'r meini prawf gofynnol ar gyfer y swydd. Mae 'meini prawf gofynnol' yn golygu bod yn rhaid i chi ddarparu tystiolaeth ddigonol yn eich cais, gan ddangos eich bod yn bodloni'r lefel ofynnol o gymhwysedd sydd ei hange n ar gyfer pob maen prawf hanfodol, yn ogystal â bodloni unrhyw un o'r cymwysterau, sgiliau neu brof iad sy'n ofynnol. Mae Swyddfa'r Cabinet a Defra wedi ymrwmo i gyflogi a datblygu gyrfa pobl anabl. I ddangos hyn rydym yn falch i allu arddangos logo Arweinydd Hyderus o ran Anabledd. Mae Ofwat hefyd yn llofnodwr y cynllun Hyderus o ran Anabledd. Gellir cael rhagor o wybodaeth am Arweinwyr Hyderus o ran Anabledd trwy glicio ar y logo uchod. Os bydd person sydd ag anabledd dan anfantais o gymharu â pherson sydd ddim yn anabl, mae dyletswydd arnom i wneud newidiadau rhesymol i'n prosesau lle bo hynny'n bosibl. Os oes angen unrhyw newidiadau arnoch fel y gallwch wneud eich cais, cyfeiriwch at yr adran [‘Sut i wneud cais a chyflwyno eich cais’](#) isod.

Mae Ofwat hefyd yn ymrwmo i wneud popeth y gall i wneud yr addasiadau rhesymol sydd eu hangen gan unrhyw ymgeisydd llwyddiannus sydd ag anabledd.

---

# Ynglŷn ag Ofwat

---

## Cefndir

Yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr (Ofwat) yw rheoleiddiwr economaidd annibynnol y sector dŵr a dŵr gwastraff yng Nghymru a Lloegr. Mae Ofwat yn dwyn y diwydiant dŵr a dŵr gwastraff i gyfrif a'i rôl yw:

- amddiffyn buddiannau defnyddwyr, gan gynnwys sicrhau bod marchnadoedd yn gweithio er budd defnyddwyr;
- sicrhau bod cwmnïau effeithlon yn gallu ariannu'r gwaith o gyflawni eu swyddogaethau yn effeithiol;
- hyrwyddo gwytnwch hirdymor cyflenwad dŵr a systemau dŵr gwastraff;
- cyfrannu at ystod eang o nodau polisi, yn cynnwys datblygu cynaliadwy.


Mae Ofwat yn adran anweinidogol y Llywodraeth sy'n atebol yn uniongyrchol i'r Senedd ac mae'n annibynnol ar y Llywodraethau a'r rheini y mae'n eu rheoleiddio. Yn San Steffan noddir Ofwat gan yr Adran Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) ac yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru.

Gwneir penodiadau anweithredol y Bwrdd gan Ysgrifennydd Gwladol Defra mewn ymgynghoriad â Llywodraeth Cymru.

Sefydlwyd Ofwat ym 1989 ac mae'n cyflogi tua 250 o bobl yn Birmingham a Llundain. Mae gan y staff ystod eang o gefndiroedd proffesiynol sy'n cynnwys economyddion, cyfrifyddion, cyfreithwyr, peirianwyr, gwyddonwyr ac arbenigwyr cefnogi gwasanaeth.

Diwygiodd Ofwat ei strategaeth yn 2019 drwy gyfeirio ar yr heriau y mae'r diwydiant yn eu hwynebu, ei ddyletswyddau strategol a'r blaenoriaethau ac amcanion strategol a osodwyd gan Ysgrifennydd Gwladol Defra a Llywodraeth Cymru, gan roi ystyriaeth i'r offer y dylai eu defnyddio i fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu'r sector a'r math o reoleiddiwr y mae angen iddo fod o 2020 ymlaen.

## Nodau strategol Ofwat



Mae'r agenda ar gyfer y dyfodol yn peri heriau sylweddol iawn yn fasnachol, amgylcheddol ac o ran cwsmeriaid ar ffurf poblogaeth sy'n tyfu, galw cynyddol ar adnoddau dŵr, gyda'r defnydd y pen ymhlith yr uchaf yn Ewrop, a phwysau ar yr amgylchedd naturiol. Mae gan gwsmeriaid ddisgwyliadau mwy a mwy soffistigedig ac mae'r sector ei hun yn wynebu her sylweddol i'w ddilysrwydd. Yn erbyn y cefndir hwn mae angen i'r sector ddarparu gwasanaethau cynaliadwy nawr ac yn yr hirdymor. Rhaid i reoleiddio economaidd chwarae ei ran wrth gymell y ddarpariaeth honno a gweithredu pan nad yw cwmnïau'n cyrraedd y nod. Er mwyn mynd i'r afael â'r heriau hyn, mae Ofwat yn parhau i ystyried sut y mae angen iddo leoli ei hun fel rheoleiddiwr sy'n gallu chwarae ei ran i gynnal ymddiriedaeth a hyder yn y sector dŵr.

Yn ychwanegol at y gofyniad i gyflawni ei swyddogaethau statudol ac i weithredu yn unol â'r blaenoriaethau a'r amcanion strategol y cyfeiriwyd atynt uchod, mae Ofwat hefyd yn gweithio o fewn y cyd-destun polisi ehangach a osodwyd gan Lywodraethau Cymru a'r DU ac mae'r polisïau hyn ac adolygiadau parhaus a gomisiynwyd gan y Llywodraeth yn berthnasol i strategaeth Ofwat. Ochr yn ochr â'r wybodaeth a ddarperir isod, mae strategaeth Ofwat yn ystyried sut y gall ei reoleiddiad gyfrannu at gyflawniad polisïau a strategaethau ehangach Llywodraeth Cymru yn ymwneud â'r sector, megis y rheini a adlewyrchir yn Neddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a Deddf yr Amgylchedd (Cymru).

I gael rhagor o wybodaeth, dilynwch y dolenni canlynol:

- [Deddf y Diwydiant Dŵr 1991](#)
- [Deddf Dŵr 2014:](#)
- [Amser i weithredu, gyda'n gilydd: Strategaeth Ofwat](#)
- [Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Ofwat:](#)
- [Gwefan Llywodraeth Cymru](#)

---

# Y Bwrdd

---

Arweinir Ofwat gan Fwrdd o gyfarwyddwyr sy'n cynnwys y Cadeirydd, fel arfer hyd at chwe Chyfarwyddwr Anweithredol a phedwar Cyfarwyddwr Gweithredol, yn cynnwys y Prif Weithredwr.

Gellir gweld manylion aelodau Bwrdd Ofwat ar wefan Ofwat ac yn Atodiad C isod:

- <https://www.ofwat.gov.uk/about-us/who-we-are/>
- [http://www.ofwat.gov.uk/aboutofwat/structure/organisation/prs\\_web130705biographies](http://www.ofwat.gov.uk/aboutofwat/structure/organisation/prs_web130705biographies)

Mae'r Bwrdd yn ymwybodol iawn o'r angen i wneud cyfarfodydd yn effeithiol pan allai'r agenda fod yn eang a'r cyfrifoldebau fod yn arwyddocaol. Gyda chymorth cynigion gweithredol clir, mae'r deg cyarfod Bwrdd a gynhelir y flwyddyn yn rhedeg i amserlen effeithlon sy'n cael y cyfraniad gorau gan aelodau'r Bwrdd ar faterion o arwyddocâd strategol. Graddiwyd y Bwrdd gan werthusiadau mewnol ac allanol diweddar yn un effeithiol a chadarnhaodd bod aelodau yn mwynhau bod yn rhan o Fwrdd Ofwat. Rydym am barhau i adeiladu ar y sylfaen gref o sgiliau amrywiol a chyfraniad, brwdfrydedd ac ymrwymiad.

Mae cyfrifoldebau Bwrdd Ofwat yn cynnwys:

- cyflawni swyddogaethau a dyletswyddau Ofwat o dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 ("WIA91") ac unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol arall;
- gweithio gyda'r Bwrdd a'r Weithrediaeth, arwain y gwaith o sicrhau datblygiad cyfeiriad strategol cyffredinol Ofwat yng nghyd-destun fframwaith polisi ac adnoddau cadarn;
- sicrhau bod y safonau uchaf o lywodraethu corfforaethol yn cael eu dilyn bob amser;
- sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith i roi sicrwydd ar reoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol;
- sicrhau bod Ofwat yn gweithredu o fewn terfynau ei awdurdod statudol a bod fframwaith dirprwyo cadarn ar waith;
- goruchwyllo'n gyffredinol gyflawniad busnes o ddydd i ddydd Ofwat gan y Weithrediaeth;
- cymryd cyfrifoldeb personol am ysgogi diwylliant Ofwat i sicrhau uniondeb a natur agored, amrywiaeth amlwg o ran rhywedd ac ethnigrwydd, cefnogi strategaeth Ofwat, a'i ymateb i farn ei gymuned eang ac amrywiol o randdeiliaid.

---

# Manyleb rôl

---

Bydd disgwyl i'r Cadeirydd:

- Weithredu fel llysgennad i Ofwat mewn perthynas â'i amrywiol randdeiliaid, gan gynnwys cwmnïau dŵr a buddsoddwyr, cwsmeriaid a grwpiau amgylcheddol, gan ategu a pheidio â dyblygu rôl y Prif Weithredwr a'r tîm gweithredol;
- Sicrhau bod Ofwat yn gallu mynd i'r afael â'r amgylchedd rhanddeiliaid cymhleth a systemau rhyng-gysylltiedig y mae'n rhan ohonynt, gan gynnwys rheoli aliniad buddiannau buddsoddwyr a defnyddwyr, a safbwyntiau cenedlaethol a rhanbarthol/lleol;
- Sicrhau bod aelodau'r Bwrdd yn cymryd rhan ragweithiol mewn cynllunio olyniaeth a nodi darpar ymgeiswyr ar gyfer uwch arweinwyr a phenodiadau i'r Bwrdd yn y dyfodol, gan ystyried bylchau mewn sgiliau a phrofiad;
- Sicrhau trafodaethau a gwneud penderfyniadau sy'n agored, cynhwysol ac effeithiol, gan gynnwys trwy sicrhau bod lleisiau'r cyfarwyddwyr gweithredol ac anweithredol yn cael eu clywed a'u cydbwysu'n effeithiol a darparu cefnogaeth, her a mentoriaeth effeithiol;
- Arwain Bwrdd effeithiol a chefnogi'r Prif Weithredwr i gyflawni strategaeth Ofwat a chynnal ei gyfrifoldebau statudol yn effeithiol, gan ystyried blaenoriaethau strategol llywodraeth Cymru a llywodraeth y DU;
- Cynrychioli Ofwat a gweithredu fel prif gyswllt y Bwrdd gyda'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru, gan godi materion fel y bo'n briodol a sicrhau bod aelodau eraill y Bwrdd yn cael eu cadw'n ymwybodol o unrhyw gyfathrebu o'r fath, a bod yn atebol i Weinidogion Cymru a'r DU am gyflawni amcanion sy'n ymdrin ag arweinyddiaeth, cyfeiriad ac effeithiolrwydd cyffredinol Ofwat;
- Arwain y Bwrdd mewn modd sy'n mynnu ac yn sicrhau perfformiad trawsnewidiol, gan gynrychioli defnyddwyr a'r cymunedau y mae'r sector yn eu gwasanaethu.
- Cynnal enw da Ofwat fel rheoleiddiwr diduedd, annibynnol a seiliedig ar dystiolaeth, gan arfer barn gadarn.

Rhaid i'r ymgeisydd llwyddiannus gadw at egwyddorion gwasanaeth cyhoeddus Nolan a'r 12 Egwyddor Llywodraethu ar gyfer pob Cyfarwyddwr Anweithredol Corff Cyhoeddus, yr olaf fel yr adlewyrchir yn fwy penodol yn achos Ofwat yn y Ddogfen Fframwaith y cytunwyd arni gyda Defra ac ystyried rôl a chyfrifoldebau Ofwat (atodedig yn [Atodiad A](#) ac [Atodiad B](#)) a'r [Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Bwrdd](#).



---

# Meini prawf hanfodol

---

## Rhaid i ymgeiswyr allu dangos y cyfan o'r meini prawf hanfodol canlynol:

- Meddylwr strategol a chreadigol gyda'r gallu i arwain bwrdd a gweithrediaeth wybodus, dod â her adeiladol a chreu consensws i ddarparu atebion ymarferol a diduedd i ystod o faterion cymhleth;
- Deall egwyddorion rheoleiddio economaidd a chystadleuaeth rhwng cyfleustodau sydd wedi'u preifateiddio, a dealltwriaeth glir o'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu rheoleiddwyr;
- Craffter busnes sylweddol gyda dealltwriaeth o'r byd ariannol a chorfforaethol y mae cyfleustodau wedi'u preifateiddio yn gweithredu ynddo a barn a chryfder cymeriad i allu dwyn cwmnïau i gyfrif;
- Y gallu i gynrychioli Ofwat ar bob lefel ac i ymgysylltu â, a dylanwadu ar, ystod eang o uwch randdeiliaid yn y diwydiant, yn San Steffan a Chymru;
- Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r materion sy'n effeithio ar gwsmeriaid, yn enwedig y rheini sy'n agored i niwed, ynghyd â dealltwriaeth glir o'r materion amgylcheddol, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â datgarboneiddio ac effeithiau ar yr hinsawdd, wrth sicrhau cyflenwad dŵr diogel, fforddiadwy a gwydn nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

---

# Telerau'r penodiad

---

Y gydnabyddiaeth ariannol am y rôl yw £120,000 y flwyddyn am ymrwymiad amser o dri diwrnod yr wythnos. Telir treuliau ar gyfer gwariant rhesymol ac angenrheidiol a gafwyd ar ran Ofwat ac yn unol â pholisi teithio a threuliau Ofwat o bryd i'w gilydd.

Disgwylir i'r penodiad fod am dair neu bedair blynedd. Yn unol â'r Cod Llywodraethu Gweinidogol ar Benodiadau Cyhoeddus, gall Gweinidogion ymestyn telerau penodiadau cyhoeddus am ail neu drydydd tymor. Fodd bynnag, bydd unrhyw ailbenodiad yn amodol ar asesiad perfformiad da gan Weinidogion a bydd yn ôl disgrisiwn yr Ysgrifennydd Gwladol.

Gall y penodai ymddiswyddo drwy roi tri mis o rybudd ysgrifenedig i'r Gweinidog Gwladol. Gall y Gweinidog Gwladol derfynu'r penodiad o dan rai amgylchiadau, a hysbysir yr ymgeisydd llwyddiannus ynglŷn â'r rhain pan y'i penodir.

Bydd y Bwrdd fel arfer yn cyfarfod ddeg gwaith y flwyddyn yn Llundain neu Birmingham gyda mwy o gyfarfodydd yn ystod 12 mis olaf adolygiad prisiau bob pum mlynedd. Nod Ofwat yw cynnal un cyfarfod Bwrdd y flwyddyn yng Nghymru.

---

# Y broses recriwtio

---

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw hanner dydd ar Dydd Mercher 10fed Tachwedd. Disgwyliwn y byddwn wedi llunio rhestr fer erbyn 26 Tachwedd gyda chyfweiliadau panel yn cael eu cynnal ar w/c 10fed Ionawr 2022.

Mae'n hanfodol bod eich datganiad addasrwydd yn rhoi gwybodaeth lawn ond cryno sy'n berthnasol i'r penodiad, gan ddangos yn glir sut rydych chi'n bodloni pob un o'r [meini prawf hanfodol](#).

Bydd y Panel Asesu Cynghorol yn cynnwys:

- David Hill (Cyfarwyddwr Cyffredinol yr Amgylchedd, Materion Gwledig a Morol Defra) fel Cadeirydd y Panel
- Delroy Beverley (Ymddiriedolwr y Llyfrgell Brydeinig) fel Uwch Aelod Panel Annibynnol
- Gian Marco Currado (Llywodraeth Cymru, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a'r Môr)
- Christine Farnish (cyn aelod o Fwrdd Ofwat)
- Phil Duffy (Trysorlys EM, Cyfarwyddwr Cyffredinol ar gyfer Twf).

Yng nghyfarfod y rhestr fer bydd y Panel yn asesu pob cais yn erbyn y meini prawf hanfodol er mwyn penderfynu pwy i'w gwahodd am gyfweiliad.

Disgwylir i'r cyfweiliadau gael eu cynnal ym Mhencadlys Llundain Ofwat yn Sgwâr Bloomsbury a byddant yn para tua 60 munud yr un. Rhoddir mwy o fanylion i chi am yr union leoliad a'r drefn ymlaen llaw. Efallai y bydd yn rhaid cynnal cyfweiliadau ar ffurf fideo-gynadledda oherwydd y cyfyngiadau a osodir yn sgil Covid-19. Bydd y Tîm Penodiadau Cyhoeddus yn trafod trefniadau gydag ymgeiswyr yn ôl yr angen.

Disgwylir i ymgeiswyr sydd ar y rhestr fer gael trafodaeth gyda Chadeirydd y Panel, David Hill, cyn y cyfweiliadau i drafod y rôl, i gael gwybodaeth fanylach am y penodiad a beth yw eich cymhellion ar gyfer gwneud cais.

Penodiadau Gweinidogol yw'r rhain a chaiff pob ymgeisydd y bydd y Panel yn teimlo sy'n briodol i'w benodi gwrrd â'r Ysgrifennydd Gwladol cyn y gwneir y penderfyniad terfynol.

Dylai ymgeiswyr fod yn ymwybodol y bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd a ffeffrir ar gyfer swydd y Cadeirydd ymddangos gerbron Pwyllgor Dethol yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig cyn ei benodi. Gellir dod o hyd i ganllawiau ar wrandawiadau craffu cyn penodiad [yma](#). ...

Gallwch hawlio costau teithio rhesymol a gafwyd wrth deithio i'r cyfweiliad ac adref (nodwch efallai y gofynnir i chi gyfiawnhau costau teithio os yw Defra o'r farn bod yr hawliadau'n ormodol). Rhowch wybod i Defra ymlaen llaw os ydych chi'n debygol o hawlio, ynghyd â'r costau bras trwy gysylltu â [publicappts@defra.gov.uk](mailto:publicappts@defra.gov.uk) a dyfynnu'r cyfeirnod: **APPT02-21**.

---

# Sut i wneud cais a'i gyflwyno

---

I wneud cais, anfonwch:

- CV dim mwy na dwy ochr A4;
- datganiad cefnogi hyd at 1,000 o eiriau (dim mwy na dwy ochr A4), yn nodi sut yr ydych yn bodloni'r [meini prawf hanfodol](#) – gwnewch yn siŵr eich bod yn cyfeirio at gynnwys y ddogfen hon ac yn darparu enghreifftiau penodol;
- cyfeiriad e-bost a rhif ffôn dau ganolwr;
- ffurflen monitro amrywiaeth a gweithgarwch gwleidyddol wedi'i llenwi;
- ffurflen monitro gwrthdaro buddiannau, ymddygiad a hysbysebu wedi'i llenwi (nodwch yr adran ar [wrthdaro buddiannau a diwydrwydd dyladwy](#) isod).

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y broses benodi, cysylltwch â'r Tîm Penodiadau Cyhoeddus yn [publicappts@defra.gov.uk](mailto:publicappts@defra.gov.uk)

I gael trafodaeth anffurfiol am y rôl, cysylltwch â Jenny Block, Ysgrifennydd Bwrdd Ofwat, ar 07734 981343 neu e-bostiwch [jenny.block@ofwat.gov.uk](mailto:jenny.block@ofwat.gov.uk) neu Georgina Collins yn Defra ar 07500854277 neu e-bostiwch [Georgina.Collins@defra.gov.uk](mailto:Georgina.Collins@defra.gov.uk).

**Dylid e-bostio ceisiadau wedi'u cwblhau at [publicappts@defra.gov.uk](mailto:publicappts@defra.gov.uk) – dyfynnwch y cyfeirnod APPT02-21.**

---

# Meini prawf anghymhwysra

---

Ni ellir eich ystyried ar gyfer penodiad cyhoeddus o dan yr amgylchiadau canlynol:

- os byddwch yn dod yn fethdalwr neu'n gwneud trefniant gyda chredydwr;
- os yw eich ystâd wedi cael ei secwestru yn yr Alban neu eich bod yn cytuno i raglen trefnu dyledion o dan Ran 1 Deddf Trefnu ac Atafaelu Dyledion (Yr Alban) 2002 (dsa 17) fel y sawl sydd mewn dyled neu eich bod, o dan gyfraith yr Alban, wedi rhoi gweithred ymddiriedolaeth ar gyfer credydwr.
- os ydych wedi eich gwahardd rhag gweithredu fel cyfarwyddwr cwmni o dan Ddeddf Gwahardd Cyfarwyddwyr Cwmni 1986;
- os ydych wedi eich cael yn euog o drosedd a bod yr euogfarn heb ei disbyddu at ddibenion Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (c. 53);
- os ydych yn dod yn destun gorchymyn rhyddhau o ddyled neu orchymyn cyfyngu methdaliad;
- os ydych yn peidio â datgan gwrthdaro buddiannau.

---

# Gwrthdaro buddiannau a diwydrwydd dyladwy

---

Os oes gennych unrhyw fuddiannau a allai fod yn berthnasol i waith Ofwat, ac a allai arwain at wrthdaro buddiannau gwirioneddol neu ymddangosol pe byddech yn cael eich penodi, rhowch y manylion yn eich cais. Os oes gennych ymholiadau am hyn ac yr hoffech drafod ymhellach, cysylltwch â'r [Tîm Penodiadau Cyhoeddus](#) neu Jenny Block yn Ofwat (gweler uchod). Gweler hefyd [Reolau Gweithdrefn Bwrdd](#) Ofwat sy'n rhoi gwybodaeth bellach am y mathau o fuddiannau sy'n arbennig o debygol o arwain at wrthdaro, ac felly wedi'u gwahardd, yn Atodiad A, adran 4. Dylid nodi unrhyw fuddiannau o'r fath yn eich cais.

O gofio natur penodiadau cyhoeddus, mae'n bwysig bod y rhai a benodir yn aelodau o gyrff cyhoeddus yn cynnal hyder y Senedd a'r cyhoedd. Os oes unrhyw faterion yn eich hanes personol neu broffesiynol a allai, pe byddech yn cael eich penodi, gael eu camddehongli, achosi embaras, neu beri perygl i hyder y cyhoedd yn y penodiad, mae'n bwysig eich bod yn eu dwyn i sylw'r Panel Asesu Cynghorol ac yn rhoi manylion y mater(ion) yn eich cais. Wrth ystyried a ydych yn dymuno datgan unrhyw faterion, dylech hefyd feddwl am unrhyw ddatganiadau cyhoeddus yr ydych wedi eu gwneud, gan gynnwys drwy gyfryngau cymdeithasol.

Fel rhan o'n gwiriadau diwydrwydd dyladwy byddwn yn ystyried unrhyw beth yn y parth cyhoeddus sy'n gysylltiedig â'ch ymddygiad neu'ch gallu proffesiynol. Bydd hyn yn cynnwys ein bod yn cynnal chwiliadau o ddatganiadau cyhoeddus blaenorol a blogiau cyfryngau cymdeithasol neu unrhyw wybodaeth arall sydd ar gael yn gyhoeddus. Efallai y rhoddir y wybodaeth hon ar gael i'r Panel Asesu Cynghorol ac efallai y bydd y panel am archwilio materion gyda chi pe byddech yn cael eich gwahodd am gyfweliad. Gall y wybodaeth hefyd gael ei rhannu gyda gweinidogion a Swyddfa'r Cabinet.

---

# Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus

---

Rheoleiddir y penodiad hwn gan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus er mwyn sicrhau y caiff ei wneud ar sail teilyngdod yn dilyn cystadleuaeth deg ac agored. Mae rhagor o wybodaeth am rôl y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus a'r Cod Llywodraethu Penodiadau Cyhoeddus i'w gweld yn:

<http://publicappointmentscommissioner.independent.gov.uk/>

[https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/578498/governance\\_code\\_on\\_public\\_appointments\\_16\\_12\\_2016.pdf](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/578498/governance_code_on_public_appointments_16_12_2016.pdf)

I gael manylion llawn y broses gwyno ar gyfer penodiadau cyhoeddus, cliciwch ar y ddolen ganlynol a fydd yn mynd â chi i wefan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus

<https://publicappointmentscommissioner.independent.gov.uk/complaints/>

## Diogelu data

---

Mae Defra wedi ymrwymo i ddiogelu preifatrwydd a diogelwch eich gwybodaeth bersonol ac mae'n gwneud hynny yn unol â chyfraith diogelu data yn cynnwys Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU (GDPR y DU). Defnyddir yr holl wybodaeth a ddarperir gennych i fynd rhagddo â'r penodiad cyhoeddus a restrir yn y pecyn gwybodaeth hwn ac yn achos gwybodaeth monitro amrywiaeth gall gael ei dienwi a'i defnyddio dim ond at ddibenion monitro. I gael rhagor o wybodaeth am sut yr ydym yn casglu ac yn dal eich gwybodaeth, darllenwch yr Hysbysiad Preifatrwydd y gellir ei weld ar Wefan Penodiadau Cyhoeddus Swyddfa'r Cabinet (<https://publicappointments.cabinetoffice.gov.uk>) neu gofynnwch am gopi o Hysbysiad Preifatrwydd Penodiadau Cyhoeddus Defra gan [publicappts@defra.gov.uk](mailto:publicappts@defra.gov.uk).

---

# Atodiad A - Saith egwyddor bywyd cyhoeddus

## Anhunanoldeb

Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus weithredu er budd y cyhoedd a hynny'n unig.

## Uniondeb

Ni ddylai deiliaid swyddi cyhoeddus osod eu hunain o dan unrhyw ymrwymiad i unigolion neu sefydliadau a allai geisio'n amhriodol ddylanwadu arnynt yn eu gwaith. Ni ddylent weithredu na gwneud penderfyniadau er mwyn cael budd ariannol neu fudd arall iddynt hwy, eu teulu na'u ffrindiau. Rhaid iddynt ddatgan a datrys unrhyw fuddiannau a pherthnasoedd.

## Gwrthrychedd

Rhaid i ddeiliaid swyddi cyhoeddus weithredu a gwneud penderfyniadau yn ddiduedd, yn deg ac ar sail teilyngdod, gan ddefnyddio'r dystiolaeth orau a heb wahaniaethu na dangos rhagfarn.

## Atebolrwydd

Mae deiliaid swyddi cyhoeddus yn atebol am eu penderfyniadau a'u gweithredoedd i'r cyhoedd a rhaid iddynt dderbyn unrhyw graffu i sicrhau hyn.

## Bod yn agored

Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus weithredu a gwneud penderfyniadau mewn modd agored a thryloyw. Ni ddylid dal gwybodaeth rhag y cyhoedd oni bai bod rhesymau clir a chyfreithlon dros wneud hynny.

## Gonestrwydd

Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus fod yn onest.

## Arweinyddiaeth

Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus arddangos yr egwyddorion hyn trwy eu hymddygiad eu hunain. Dylent hyrwyddo a chefnogi'n gadarn yr egwyddorion a bod yn barod i herio ymddygiad gwael pan fydd yn digwydd.



---

## Atodiad B - 12 Egwyddor Llywodraethu ar gyfer pob Cyfarwyddwr Anweithredol Corff Cyhoeddus

### 1. Arbenigedd

- Ystyried a gweithredu er budd gorau eich sefydliad a'i amcanion; cyflawni'r canlyniadau a ddisgwylir gan eich adran noddi, gweinidogion ac yn y pen draw y cyhoedd trwy Ddatganiadau Polisi Strategol, a chyfarwyddiadau ac arweiniad statudol.
- Ystyried cenhadaeth a dyletswyddau ehangach eich Ysgrifennydd Gwladol sy'n noddi, ei Adran/Hadran a'r Llywodraeth.
- Sicrhau cydymffurfiaid â dyletswyddau statudol a'r fframwaith gweithredol a nodir yn Nogfen Fframwaith y sefydliad a gweithredu o fewn ei bwerau.
- Defnyddio gofal, medr a diwydrwydd rhesymol wrth arfer eu hawdurdod a'u barn.

### 2. Craffu a herio

- Cynnal annibyniaeth o'r weithrediaeth i ganiatáu craffu ar reolwyr ac mewn cyfarfodydd cytuno ar nodau ac amcanion, a monitro perfformiad ac adrodd ar berfformiad fel bod y cyhoedd sy'n defnyddio'ch sefydliad yn derbyn gwasanaeth o ansawdd uchel.
- Bodloni eich hun ynglŷn ag uniondeb gosod cyllideb i gyflawni amcanion a gwybodaeth ariannol ac adrodd yn erbyn cyllidebau, a bod rheolaethau ariannol a systemau rheoli risg yn gadarn ac yn rhai y gellir eu hamddiffyn. Bodloni gofynion [Rheoli Arian Cyhoeddus](#), gan gynnwys cefnogi'r Swyddog Cyfrifyddu i gyflawni ei ddyletswyddau i ddarparu priodoldeb a gwerth am arian wrth ddefnyddio arian cyhoeddus.
- Hyrwyddo safonau uchel o reoli risg trwy sicrhau bod gan eich sefydliad adroddiadau risg, rheolaethau a threfn lywodraethu effeithiol, arbenigedd risg a goddefiannau risg i reoli risg yn effeithiol.
- Cynrychioli eich sefydliad i'r adran ac i Weinidogion, ynghyd â sicrhau bod safbwyntiau Gweinidogion yn cael eu hystyried gan dîm gweithredol y sefydliad, fel sy'n briodol.

### 3. Cefnogi

- Cefnogi'r Bwrdd wrth gynllunio olyniaeth a bod yn barod i gynnig eich hun ar gyfer ailbenodiad, yn ogystal â hyrwyddo'r angen am fwrdd amrywiol.
- Cymryd rhan mewn adolygiadau rheolaidd o'ch sefydliad a'u hyrwyddo, yn ogystal ag effeithiolrwydd y Bwrdd ei hun, gan ganolbwyntio'n benodol ar ddibenion y sefydliad a'i effeithlonrwydd wrth gyflawni'r dibenion hyn. Ymgysylltu yn y broses arfarnu, gan gynnwys hunanfyfrio ar eich galluedd eich hun.
- Gwrando'n ofalus ar, gofyn cwestiynau priodol i, a chefnogi rheolwyr er mwyn annog trafodaeth mewn modd sy'n hyrwyddo diwylliant lle gwrandewir ar bob safbwynt, wrth gyflawni dyletswyddau a chyfrifoldebau'r Cyfarwyddwr unigol a pharchu a gwerthfawrogi arbenigedd y tîm gweithredol.
- Hyrwyddo llwyddiant yr endid gan ystyried buddiannau'r holl aelodau a rhan ddeiliaid, a'r holl risgiau.

---

## **Atodiad C – Aelodaeth bresennol y Bwrdd**

---



**Jonson Cox, Chair  
(Nov 2012)**



**David Black, Interim Chief  
Executive (April 2021),  
Executive Director (May 2017)**



**Mark Bayley, Non-executive  
Director (April 2016)**



**Nicola Bruce, Non-executive  
Director (Dec 2020)**



**David Jones, Non-executive  
Director (Dec 2020)**



**Seema Kennedy OBE, Non-  
executive Director (Dec 2020)**



**Jonathan Kini, Non-executive  
Director (Dec 2020)**



**Alison Munro, Non-executive  
Director (April 2016)**



**Aileen Armstrong, Executive  
Director (May 2016)**



**Lisa Commane, Executive  
Director (April 2021)**



**John Russell, Executive  
Director (July 2016)**



Department  
for Environment  
Food & Rural Affairs

